Awdurdod Ystadegau'r DU

Mehefin 2025

# **Argymhelliad gan** Awdurdod Ystadegau'r DU **ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr**







# Cynnwys


Rhagair gan Gadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU 4

Rhagair gan yr Ystadegydd Gwladol Dros Dro 6

Crynodeb gweithredol 8

Cefndir 12

Ymgynghoriad 2023 ac ymgysylltu â defnyddwyr 16

Cyngor gan y Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol 19

ARGYMHELLIAD 1
Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2031 21

ARGYMHELLIAD 2
Parhau i ddarparu adnoddau ar gyfer ystadegau am y boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol 24

ARGYMHELLIAD 3
Ymrwymo i lif data gweinyddol hanfodol 26

Monitro ac adrodd ar gynnydd 28

ATODIAD A
Dolenni perthnasol 29












# Rhagair gan Gadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU

## Fel Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU, mae'n bleser gennyf, ar ran ein Bwrdd, gymeradwyo'r cyngor a roddwyd i ni gan yr Ystadegydd Gwladol ar ddatblygiad ystadegau am y boblogaeth a mudo yn y dyfodol ar gyfer Cymru a Lloegr a chyflwyno'r argymhelliad hwn ar gyfer y camau nesaf sydd eu hangen i weinidogion.

Cyflwynwyd yr argymhelliad i'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2025 gan Syr Ian Diamond, a ymddiswyddodd o'i rôl fel Ystadegydd Gwladol wedi hynny ar 9 Mai 2025. Mae'r Ystadegydd Gwladol Dros Dro, Emma Rourke, o blaid yr argymhelliad, ac mae'r Bwrdd yn parhau i'w gefnogi'n frwd. Hoffem ddiolch i Syr Ian am ei holl waith caled ynghyd â chydweithwyr i helpu i ddatblygu'r cynigion.

Mae ystadegau am y boblogaeth a mudo o bwys i bob un ohonom, yn ein cymunedau lleol ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae eu hansawdd, eu cynwysoldeb a'u cynrychioldeb yn hanfodol i'n dealltwriaeth o'r gymdeithas rydym yn byw ynddi ac i allu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a chymdeithas sifil i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol yw comisiynu cyfrifiad gorfodol yn seiliedig ar holiadur yn 2031 – gan adeiladu ar lwyddiant a gwersi'r cyfrifiad diwethaf yn 2021 – a pharhau i ddatblygu ystadegau arloesol y SYG am y boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol er mwyn darparu amcangyfrifon amlach a mwy amserol. Mae'r argymhelliad yn annog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymrwymo i lif rheolaidd a dibynadwy o ddata gweinyddol, sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yr amcangyfrifon hyn a'u gwella ymhellach ac a fyddai'n cadw'r potensial i symud i system sy'n dibynnu'n fwy ar ddata gweinyddol yn y dyfodol pe bai gweinidogion yn dymuno gwneud hynny.

Mae Bwrdd yr Awdurdod o'r farn bod yr argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn dda â'r anghenion a fynegwyd gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys yng Nghynulliad Ystadegau diweddar y DU. Bydd yn sicrhau'r manylder o ran nodweddion pobl y mae llawer o ddefnyddwyr am ei gael, wrth sicrhau bod ein hystadegau am y boblogaeth yn fwy dynamig ac ymatebol i alwadau sy'n datblygu. Yn bwysig, credwn fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Cymru a Lloegr yn cynnig sylfaen adeiladol ar gyfer y penderfyniadau cyfatebol y bydd angen eu gwneud yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a byddai'n sail i amcangyfrifon cadarn ar gyfer y DU gyfan.

**Mae cyfrifiad gorfodol yn 2031 yn gyfle cyffrous i adeiladu ar gyflawniadau'r gorffennol, gan alluogi'r SYG i ymchwilio i ffyrdd newydd o wella cywirdeb, cynwysoldeb a hygyrchedd a manteisio ar ddatblygiadau ystadegol a thechnolegol arloesol er mwyn gwella'r ffordd y caiff data eu casglu, eu prosesu a'u dadansoddi mewn ffordd ddiogel a moesegol.**

Gwnaeth Cyfrifiad 2021 eisoes wneud defnydd o ddata gweinyddol i ategu ffurflenni confensiynol y cyfrifiad a byddai mwy o gyfle i wneud hynny yn 2031. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith, yn y dull gweithredu llwybr deuol a argymhellir yma, fod un llwybr yn cryfhau'r llall.

Os bydd gweinidogion yn derbyn yr argymhelliad hwn, bydd y SYG a Bwrdd yr Awdurdod yn canolbwyntio'n ddiwyro ar ddarparu cyfrifiad o ansawdd uchel yn 2031 a datblygu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol ymhellach mewn ffordd sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn sicrhau gwerth am arian. Byddwn yn monitro cynnydd yn ofalus ac mewn modd tryloyw, ac yn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael eu cynnwys yn llawn wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu ymhellach a'u rhoi ar waith. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu'r cynigion hyn.



**Syr Robert Chote**
Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU
**Mehefin 2025**



# Rhagair gan yr Ystadegydd Gwladol Dros Dro

## Fel yr Ystadegydd Gwladol Dros Dro, rwyf yn cyflwyno'r argymhelliad hwn ar ran y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG), gan gynnig bod paratoadau yn dechrau ar gyfer cyfrifiad yn 2031 yng Nghymru a Lloegr.

Os bydd y Llywodraeth yn dewis derbyn yr argymhelliad hwn, bydd y SYG unwaith eto'n gwahodd y boblogaeth gyfan i gymryd rhan yn yr ymarfer hwn sy'n sicrhau bod pob un o'n cymunedau yn weladwy ac sy'n hynod bwysig er mwyn llywio penderfyniadau am fywydau pob un ohonom.

Cynhaliodd y SYG gyfrifiad hynod lwyddiannus yn ystod pandemig COVID-19 yn 2021, ar adeg hollbwysig i'r wlad. Defnyddiwyd data cynnar o'r cyfrifiad gan wneuthurwyr polisïau, gan gynnwys llywio materion allweddol fel nifer y bobl a fanteisiodd ar frechlyn yn ôl galwedigaeth. Sicrhaodd y gyfradd ymateb uchel a chyfoeth data'r cyfrifiad y darparwyd ciplun o ansawdd uchel o'r boblogaeth gyfan a'i nodweddion, sy'n parhau i ddarparu manteision dirifedi i ddefnyddwyr ystadegol.

**Mae wedi bod yn glir o'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu bod y cyfrifiad bob deng mlynedd, y gofynnir i'r boblogaeth gyfan ei gwblhau, yn parhau i fod yn werthfawr tu hwnt er mwyn llywio'r penderfyniadau pwysicaf sy'n wynebu ein gwlad.**

Yn ogystal â chasglu data drwy gyfrifiad, gwyddom hefyd fod diddordeb cryf yn y gwelliannau i ansawdd, amlder ac ystod yr allbynnau y gallwn eu gweld drwy wneud mwy o ddefnydd o ffynonellau data amgen, a data gweinyddol yn arbennig, a brwdfrydedd drostynt.

Drwy ymchwil y SYG i ddata gweinyddol dros y degawd diwethaf, rwyf wedi'i goruchwylio dros y blynyddoedd diwethaf fel y Dirprwy Ystadegydd Gwladol ar gyfer Iechyd, y Boblogaeth a Dulliau, rydym wedi dangos eu potensial enfawr o ran diwallu anghenion defnyddwyr.

**Er nad yw'r data gweinyddol yn ddigon aeddfed eto i ddisodli'r angen i gasglu data drwy gyfrifiad, mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i ddefnyddio data gweinyddol i gyfrannu at ein gweithgarwch gyda'r cyfrifiad a darparu allbynnau gwell rhwng cyfrifiadau.**

Mae defnyddio'r elfennau gorau o'n profiad gyda'r cyfrifiad a'n galluoedd digidol a data sy'n cynyddu'n barhaus yn ein galluogi i ddarparu system ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ac yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o'r economi a chymdeithas.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'n defnyddwyr i ddatblygu ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n ysbrydoli hyder ac yn cyfoethogi prosesau gwneud penderfyniadau i bob un ohonom.



**Emma Rourke**
Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr
Dros Dro Awdurdod Ystadegau'r DU
**Mehefin 2025**

# Crynodeb gweithredol

Mae ystadegau am y boblogaeth a mudo yn rhoi mewnbwn hanfodol i brosesau penderfynu cyrff yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Maent yn helpu pobl i ddeall y gymdeithas rydym yn byw ynddi wrth iddi ddatblygu. Maent yn helpu llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu i'r bobl sydd eu hangen, ac y caiff adnoddau eu dyrannu'n effeithiol. Maent yn helpu busnesau i fuddsoddi yn y lleoedd cywir. Ac maent yn helpu'r rhai sy'n defnyddio ystadegau am y DU gyfan i feithrin dealltwriaeth resymegol o'r boblogaeth ledled y DU.

**Am ddegawdau, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gofyn cwestiynau i'r boblogaeth gyfan drwy'r cyfrifiad a gaiff ei gynnal bob deng mlynedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn wedi bod yn rhan ganolog o'r system hon ac yn sail i ddulliau dibynadwy a chyson o fesur ystadegau am y boblogaeth a mudo.**

Gweledigaeth yr Awdurdod yw cael system gynaliadwy ar gyfer ystadegau am y boblogaeth sy'n cynhyrchu data o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddynt. Drwy ymgynghori, mae'r SYG wedi canfod bod defnyddwyr yn parhau i feddwl bod y cyfrifiad bob deng mlynedd yn ased amhrisiadwy er mwyn diwallu eu hanghenion. Ond gwnaethant hefyd ddweud wrthym fod angen ystadegau mwy rheolaidd ac amserol arnynt er mwyn deall y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas.

**Mae'r Awdurdod yn argymell bod y Llywodraeth yn comisiynu cyfrifiad o'r boblogaeth gyfan yn seiliedig ar holiadur yn 2031.**

Mae cynnal cyfrifiad yn 2031 yn gyfle cyffrous i adeiladu system o ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n cyfuno cryfderau'r broses o gasglu data am y boblogaeth gyfan â'r gwerth ychwanegol y gall data gweinyddol ei gynnig.

Mae gan y SYG ddegawdau o brofiad o gynnal cyfrifiadau. Yn 2031, byddai'r SYG yn adeiladu ar ei phrofiad o Gyfrifiad 2021.

Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf i gael ei gwblhau ar lein yn bennaf, gan gyflawni cyfradd ymateb uchel, a gwnaeth fwy o ddefnydd o ddata gweinyddol [gweler Atodiad A, dolen 1 (Saesneg yn unig)] na chyfrifiadau blaenorol.

Yn 2031, byddai'r SYG yn ceisio ehangu'r defnydd o ddata gweinyddol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd pellach a bod yn fwy cynhwysol, yng ngoleuni'r cynnydd y mae wedi'i wneud gydag ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol dros y degawd diwethaf ac yn unol â newidiadau a welir yn rhyngwladol.

Mae ein defnydd o ddata gweinyddol wedi datblygu'n sylweddol ers 2021. Er nad yw'r data hyn yn ddigon aeddfed eto i negyddu'r angen am gyfrifiad, gallant chwarae rôl gynyddol bwysig yn y system yn y dyfodol, a dylent wneud hynny, gan gefnogi'r cyfrifiad a galluogi amcangyfrifon amlach ac o ansawdd uwch ar ystod ehangach o bynciau cyn ac ar ôl y cyfrifiad.

Yn rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 [gweler Atodiad A, dolen 2 (Saesneg yn unig)], ystyriodd y SYG y ffyrdd y caiff data am y boblogaeth eu casglu ac, ers hynny, gwnaed cynnydd o ran darparu ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi amcangyfrifon o'r boblogaeth sydd wrthi'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ddata gweinyddol ar gyfer canol 2023 [gweler Atodiad A, dolen 3 (Saesneg yn unig)] a'n hamcangyfrifon swyddogol o fudo rhyngwladol hirdymor, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025 [gweler Atodiad A, dolen 4 (Saesneg yn unig)].

Mae diogelwch gwybodaeth bersonol y cyhoedd yn flaenoriaeth bwysig. Mae gan y SYG hanes cryf o ddiogelu data sensitif, wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth a'i feithrin dros sawl degawd o gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ac arolygon rheolaidd mwyaf y DU o gartrefi. Mae Strategaeth Ddata'r SYG a ddiweddarwyd yn ddiweddar [gweler Atodiad A, dolen 5 (Saesneg yn unig)] yn ailddatgan ac yn diweddaru ei hymrwymiad i ddiogelu data. Nid yw allbynnau ystadegol a gaiff eu cyhoeddi byth yn adnabod unigolion.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad clir i agenda ddigidol drawsnewidiol [gweler Atodiad A, dolen 6 (Saesneg yn unig)] fel ysgogydd sylweddol ar gyferdiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn gyfle pwysig i ysgogi'r defnydd o ddata gweinyddol a'u hansawdd – nid dim ond ar gyfer ystadegau am y boblogaeth a mudo, ond yn ehangach. Mae gan y data hyn y potensial i sicrhau buddion i bob rhan o gymdeithas drwy ystadegau'r SYG, a byddai'r gwelliannau angenrheidiol i ansawdd y ffynonellau sylfaenol hefyd o fudd i'r sefydliadau cyflenwi, ac yn helpu i fesur cynnydd o ran pum Cenhadaeth a Chynllun ar gyfer Newid y Llywodraeth.

Mae gan sawl gwlad gofrestrau poblogaeth gorfodol sy'n helpu i wella'r broses o gysylltu data gweinyddol er mwyn creu ystadegau. Gwnaed cymariaethau rhyngwladol ar y thema hon yn yr Adolygiad Annibynnol diweddar o Awdurdod Ystadegau'r DU [gweler Atodiad A, dolen 7 (Saesneg yn unig)]. Mae'r mater hwn y tu hwnt i gylch gwaith yr Awdurdod, ond gall mentrau newydd gan y Llywodraeth sy'n ymwneud â dulliau adnabod digidol gynnig buddion ystadegol tebyg a byddai'r SYG yn ceisio bod yn bartner yn y gwaith o'u datblygu.

Byddai cyfuno cyfrifiad o'r boblogaeth gyfan yn seiliedig ar holiadur â'r defnydd effeithiol o ddata gweinyddol yn creu system wydn ar gyfer cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu pob manylyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr, ynghyd â darparu dealltwriaeth well o'r ffordd y mae cymdeithas yn newid yn ystod y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau.

O ganlyniad i hyn, gyda chyngor yr Ystadegydd Gwladol, ac ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth, mae'r Awdurdod yn argymell system ystadegol ar gyfer y boblogaeth a mudo sy'n cyfuno cryfderau casglu data drwy gyfrifiad o'r boblogaeth gyfan sy'n seiliedig ar holiadur â'r gwerth cynyddol o ddata gweinyddol, er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal cyfrifiad yn 2031 a sicrhau allbynnau gwell bob blwyddyn. Argymhellir y tri cham gweithredu canlynol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon:

1. Bod Llywodraeth y DU yn comisiynu ac yn rhoi adnoddau i'r SYG gynnal cyfrifiad gorfodol yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan yng Nghymru a Lloegr yn 2031. Dylai gefnogi allbynnau cydlynol y DU a sicrhau bod gwaith y SYG gyda data gweinyddol hyd yn hyn yn darparu cynifer o fuddion â phosibl, fel y gellir parhau i ddarparu buddion o'r fath yn y dyfodol.
2. Bod Llywodraeth y DU yn comisiynu ac yn rhoi adnoddau i'r SYG ddatblygu allbynnau ystadegol gan ddefnyddio data gweinyddol sy'n darparu amcangyfrifon mwy rheolaidd ac sy'n gynhwysol wrth gynrychioli cymdeithas. Dylai hyn gynnwys cyfrifiad o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol.
3. Bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod llif rheolaidd, dibynadwy a pharhaus o'r setiau data gweinyddol hanfodol sydd eu hangen, gan sicrhau bod perchnogion data yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, ac yn buddsoddi yn y gwelliannau gofynnol i'r ffynonellau hynny ac yn mynd i'r afael â'r elfennau hysbys sy'n gwrthdaro ac yn atal data rhag cael eu trosglwyddo.

Byddai'r argymhellion hyn yn galluogi'r SYG i gynnal cyflymder ac uchelgais ei gwaith i ymgorffori data gweinyddol yn ei hystadegau am y boblogaeth a mudo, wrth ymateb i adborth gan ddefnyddwyr mewn perthynas â dull casglu data cynhwysfawr a chynhwysol.

Y SYG sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ond gweinidogion y llywodraeth sydd â'r pŵer i alw cyfrifiad. Caiff penderfyniadau ar ddyfodol y cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon eu gwneud gan y gweinidogion perthnasol, yn seiliedig ar gyngor eu hawdurdodau ystadegol, maes o law.



Fel y nodwyd yn Adolygiad Annibynnol diweddar yr Athro Denise Lievesley o Awdurdod Ystadegau'r DU [gweler Atodiad A, dolen 7 (Saesneg yn unig)], mae'n hanfodol bod ystadegwyr y DU yn cydweithio i sicrhau bod data ac ystadegau cydlynol a chymaradwy am boblogaeth y DU yn parhau i gael eu cynhyrchu er mwyn rhoi gwybodaeth i gymunedau ledled y DU. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei adroddiad ar gyfer 2024 [gweler Atodiad A, dolen 8 (Saesneg yn unig)] ar y gwaith cydweithredol hwn i gefnogi cydlyniant yn y DU.





# Cefndir

Mae ystadegau o ansawdd uchel am y boblogaeth a mudo yn creu darlun manwl o'n cymdeithas. Maent yn rhoi gwybodaeth i wneuthurwyr polisïau llywodraeth leol a chanolog, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, busnesau'r sector preifat a sefydliadau'r sector gwirfoddol sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau da a darparu gwasanaethau a chynhyrchion yn effeithiol. Maent hefyd yn helpu dinasyddion, y cyfryngau, melinau trafod ac ymchwilwyr i ddeall sut mae maint a chyfansoddiad y boblogaeth yn datblygu.

Ers dros ddwy ganrif, mae'r cyfrifiad traddodiadol yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan wedi bod yn un o'r ffynonellau pwysicaf ar gyfer y wybodaeth hon yng Nghymru a Lloegr, gan roi cipolwg ar y boblogaeth bob deng mlynedd. Dull syml o gyfrif y boblogaeth oedd y cyfrifiad yn wreiddiol, ond mae wedi datblygu dros amser, gan ddefnyddio dulliau cynyddol soffistigedig a chwestiynau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau amrywiol ein cymdeithas sy'n newid yn gyflym.

Gwnaeth Cyfrifiad 2021 fwy o ddefnydd o ddata gweinyddol nag erioed o'r blaen [gweler Atodiad A, dolen 1 (Saesneg yn unig)] a dyma oedd y tro cyntaf iddo gael ei gynnal ar-lein yn bennaf, yn dilyn argymhelliad gan yr Ystadegydd Gwladol yn 2014. Cafwyd cyfradd ymateb uchel, gyda 97% o'r holl gartrefi yn cwblhau'r holiadur, a chafodd pob ardal awdurdod lleol gyfradd ymateb o 88% o leiaf. Hefyd, cafodd data eu rhyddhau yn fwy amserol nag erioed o'r blaen, a chyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf flwyddyn ar ôl yr ymgyrch casglu data, a chyhoeddwyd pob prif ddatganiad ar gyfer Cymru a Lloegr erbyn diwedd 2023.

Roedd papur gwyn 2018, 'Helpu i Lunio Ein Dyfodol' [gweler Atodiad A, dolen 9], yn cynnwys yr ymrwymiad i gyflwyno argymhelliad i Lywodraeth y DU ar ddyfodol y cyfrifiad, ac mae cyhoeddi'r ddogfen hon yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.





Mae ehangder a manylder y data gweinyddol a ddelir ar draws y Llywodraeth yn cynrychioli cyfle enfawr ar gyfer trawsnewid ystadegau. Mae gwaith helaeth a wnaed gan y SYG dros y degawd diwethaf wedi dangos beth sy'n bosibl gyda'r data hyn. Mae'r cynnydd hwn yn dangos cryn addewid o ran datblygu ystadegau swyddogol gan ddefnyddio data gweinyddol. Mae'r Awdurdod o'r farn y dylid parhau i sicrhau adnoddau ar gyfer y gwaith hwn yn yr hirdymor, fel y gall yr allbynnau hyn aeddfedu'n llawn, gan arwain y ffordd ar gyfer system ystadegol fwy cynaliadwy a rhagweladwy sy'n manteisio'n llawn ar ddatblygiadau o ran technoleg ac argaeledd data.

Ym mhedwar ban byd, mae sefydliadau ystadegol cenedlaethol yn ymchwilio i'r defnydd cynyddol o ddata gweinyddol [gweler Atodiad A, dolen 10 (Saesneg yn unig)] fel rhan o'u strategaeth i fynd i'r afael â heriau mewn perthynas ag ansawdd, cwmpas ac argaeledd data. Mae llawer o'r gwledydd hyn yn dibynnu ar y cryfder a grëir drwy ddulliau cyfunol.

Mae'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas ag ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn cynnig y cyfle i bwysleisio ein dull o ddylunio a chynnal gweithrediad cyfrifiad traddodiadol. Bydd hyn yn sicrhau bod y ffordd y caiff y cyfrifiad yn 2031 ei gynnal yn gadarn, gan ddefnyddio cryfderau ffynonellau data gwahanol ac ymateb i'r risg a gyflwynir gan gyfraddau ymateb isel i arolygon cymdeithasol a chyfrifiadau diweddar mewn gwledydd eraill ers y pandemig. Byddai hyn yn cyfuno effeithlonrwydd a chyfleoedd data gweinyddol â'r raddfa a'r manwl gywirdeb a geir o gyfrifiad gorfodol sy'n seiliedig ar holiadur.

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymrwymiad clir i agenda ddigidol drawsnewidiol [gweler Atodiad A, dolen 6 (Saesneg yn unig)] fel ysgogydd allweddol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, a fyddai'n gatalydd sylweddol i wireddu pŵer llawn data gweinyddol. Bydd yr ymrwymiad hwn yn arwyddocaol o ran dileu'r heriau a wynebir ar hyn o bryd gyda rhannu data a bydd yn hanfodol i'r gwaith parhaus o ddatblygu uchelgais hirdymor y SYG mewn perthynas â data gweinyddol.



**Mae'r cyfoeth o waith dadansoddi y mae data gweinyddol yn ei alluogi yn cynyddu bob blwyddyn ac, mewn amser, gyda'r buddsoddiad cywir, gallai un diwrnod ragori ar fuddion cyfrifiad traddodiadol.**

Fel rhan o Raglen Trawsnewid y Cyfrifiad a Chasglu Data, nododd yr Awdurdod y tri maen prawf gwerthuso canlynol ar gyfer asesu unrhyw argymhelliad posibl:

1. Cefnogir cynlluniau'r SYG ar gyfer system ystadegol y dyfodol gan ddefnyddwyr fel modd o ddiwallu eu hanghenion craidd am ystadegau ynghylch maint a chyfansoddiad poblogaeth Cymru a Lloegr, ei nodweddion a'i stoc dai.
2. Bydd y system ystadegol hon yn ddigon hyblyg a chadarn i ymateb yn gyflym i anghenion defnyddwyr yn y dyfodol, a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan addasu i newidiadau yn y ffynonellau data sydd ar gael; a bydd yn gallu mynd y tu hwnt i anghenion craidd.
3. Mae dulliau a ffyrdd o weithredu wedi'u hadolygu gan gymheiriaid ac yn cydymffurfio ag ystyriaethau deddfwriaethol a moesegol perthnasol. Mae ein cynlluniau wedi'u derbyn gan y cyhoedd ac mae achos busnes a chynllun rhaglen ar waith er mwyn creu system ystadegol gynaliadwy.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu argymhelliad sy'n cyd-fynd â'r meini prawf hyn, mae'r Awdurdod wedi ystyried amrywiaeth o dystiolaeth sy'n deillio o ymchwil y SYG, ymgynghoriad cyhoeddus a chyngor arbenigol. Asesiad y SYG yw y bydd defnyddwyr yn croesawu cyfrifiad yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan yn 2031 a'r argymhellion a wneir yn y ddogfen hon.

Mae'r SYG wedi cyhoeddi ymchwil helaeth ar ei gwefan mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr annibynnol ym maes methodoleg, moeseg data a chynwysoldeb.

Hefyd, cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2023. Gan gyd-daro â lansiad yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y SYG grynodeb o'r ymchwil i drawsnewid ystadegau am y boblogaeth a mudo [gweler Atodiad A, dolen 11 (Saesneg yn unig)] a'i hasesu yn erbyn y meini prawf gwerthuso.

Mae Strategaeth Ddata'r SYG [gweler Atodiad A, dolen 5 (Saesneg yn unig)] yn ceisio gwireddu gwerth llawn data fel ased strategol, wrth gynnal lefelau uchel o ymddiriedaeth a thryloywder. Wrth i'r SYG weithio i roi hyn ar waith, bydd setiau data gweinyddol cysylltiol yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn y gwaith o gynhyrchu ei hystadegau. O ystyried natur sensitif y data sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data hyn, mae cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn hollbwysig.

Gan ddilyn cyngor gan Bwyllgor Cynghorol Moeseg Data'r Ystadegydd Gwladol [gweler Atodiad A, dolen 12 (Saesneg yn unig)], mae'r SYG wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn archwilio agweddau cyfoes at ddata a ph'un a yw'r rhain yn newid dros amser. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y SYG grynodeb o agweddau'r cyhoedd at ddata [gweler Atodiad A, dolen 13 (Saesneg yn unig)], gan gynnwys safbwyntiau ar gysylltu data a defnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol. Mae hyn yn defnyddio ystod o ffynonellau'r SYG a ffynonellau allanol rhwng 2014 a 2023. Mae'r ymchwil ddiweddaraf yn awgrymu bod y cyhoedd yn derbyn prosesau rhannu a chysylltu data i raddau helaeth, a bod hyn wedi bod yn gyson wir dros y degawd. At hynny, mae aelodau o'r cyhoedd yn tybio'n gynyddol fod rhannu a chysylltu data eisoes yn arferion cyffredin ar draws sefydliadau'r llywodraeth.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod yn rhaid i'r SYG weithio i gynnal lefelau uchel o ymddiriedaeth. Dylai'r SYG gynnal a chryfhau ei hymrwymiadau i gynnal tryloywder gyda'r cyhoedd ynglŷn â pha ffynonellau data a gaiff eu defnyddio a sut. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am y mesurau preifatrwydd a diogelwch sydd ar waith i gynnal ymddiriedaeth ac amddiffyn preifatrwydd.





## Ymgynghoriad 2023 ac ymgysylltu â defnyddwyr

Ar 29 Mehefin 2023, gwnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) lansio ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr [gweler Atodiad A, dolen 14]. Roedd hwn yn ceisio barn am sut y byddai cynigion y SYG i greu system gynaliadwy, sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, ar gyfer cynhyrchu ystadegau hanfodol a chyfredol am y boblogaeth yn diwallu anghenion defnyddwyr. Cafwyd cyfanswm o 706 o ymatebion. Mae'r SYG wedi cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad [gweler Atodiad A, dolen 15].

Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a thu hwnt. Casglwyd adborth drwy ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd.

**Dangosodd yr ymatebwyr gefnogaeth eang o blaid parhau i ddatblygu system sy'n gwneud defnydd cynyddol o ddata gweinyddol, gan sicrhau manteision data mwy amserol a rheolaidd.**





Ochr yn ochr â hyn, roedd cryn ddyhead am sicrwydd pellach mewn perthynas â rhai o fanylion technegol system weinyddol a sut y caiff ei darparu. Roedd defnyddwyr am gael gwell dealltwriaeth o'r dyluniad ystadegol arfaethedig, yn enwedig ar gyfer cynhyrchu data ar lefel unigolion. Roedd safbwyntiau cyson ar draws pob grŵp eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys y llywodraeth, ymchwilwyr, y trydydd sector ac unigolion, fel a ganlyn:

- byddai **amcangyfrifon mwy rheolaidd ac amserol o'r boblogaeth a mudo** yn cynnig tystiolaeth ategol well ar gyfer darparu gwasanaethau
- byddai **monitro mudo mewnol yn well** drwy'r diffiniadau amgen arfaethedig yn galluogi unigolion i ddeall tueddiadau newidiol ar adegau penodol
- mae **data ar nodweddion manwl** yn hanfodol i lawer o ddefnyddwyr a sefydliadau weithredu'n effeithiol ac i ddeall anghenion poblogaethau penodol yn llawn
- mae angen **data ar lefelau daearyddol manwl** er mwyn deall gwahaniaethau rhwng cymunedau, yn enwedig mewn perthynas ag anghydraddoldeb neu amddifadedd
- **mae angen sicrwydd mewn perthynas â chynaliadwyedd ffynonellau gweinyddol sylfaenol,** gan gynnwys cwmpasu nodweddion yn llawn
- **gan gynnwys cwmpasu nodweddion yn llawn** ar draws ffynonellau a gwahanol rannau o'r DU
- **mae casglu data ar lefel unigolion yn hanfodol** i alluogi cydgasgliad wedi'i deilwra mewn allbynnau er mwyn diwallu amrywiaeth eang o anghenion
- unwaith y bydd digon o amser wedi mynd heibio, **caiff data am y boblogaeth eu gwerthfawrogi** gan haneswyr cymdeithasol ac at ddiben ymchwil achyddol

Er ei bod yn glir bod llawer o ddefnyddwyr yn croesawu'r gwaith parhaus i ddatblygu ystadegau am y boblogaeth a mudo a gaiff eu seilio'n yn fwyfwy ar ddata gweinyddol, a bod grwpiau ffocws y SYG gydag aelodau o'r cyhoedd wedi dangos eu bod yn derbyn y dull gweithredu hwn, mae'n amlwg o ymatebion a thystiolaeth y SYG hyd yn hyn, gan gynnwys y ddogfen ymgynghori [gweler Atodiad A, dolen 16], nad yw'n amser addas eto i roi'r gorau i gynnal cyfrifiad o'r boblogaeth gyfan ar ffurf holiadur. Daeth y thema hon i'r amlwg mewn cyfraniadau at Gynulliad Ystadegau'r DU yn 2025 hefyd, fel y disgrifir yn yr adroddiad annibynnol [gweler Atodiad A, dolen 17 (Saesneg yn unig)] am y digwyddiad. Mae'r Awdurdod wedi gwrando ar yr adborth hwn, ac mae'r angen i ddangos y galluogrwydd hwn wedi llywio blaenoriaethau ac amserlen yr argymhelliad hwn.

Anfonodd Pwyllgor Cynghori ar Ddata Cynhwysol yr Ystadegydd Gwladol [gweler Atodiad A, dolen 18 (Saesneg yn unig)] lythyr ffurfiol at yr Ystadegydd Gwladol mewn ymateb i'r ymgynghoriad, y mae'r SYG wedi'i gyhoeddi [gweler Atodiad A, dolen 19 (Saesneg yn unig)]. Roedd yr adborth yn canolbwyntio ar yr angen i ddata am y boblogaeth fod yn gynhwysol, lle gall pobl â'r holl nodweddion gwarchodedig gael eu cyfrif a bod yn weladwy a, thrwy hynny, sicrhau cywirdeb data gweinyddol a'r gallu i gynhyrchu data ar boblogaethau sy'n wynebu risg.

At hynny, pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd dilysu cywirdeb data gweinyddol, yn enwedig yn absenoldeb posibl cyfrifiad traddodiadol yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan yn 2031. Nododd y pwyllgor fod y cynllun arfaethedig i ddilysu'r data yn ei gamau cynnar ac y byddai angen gwneud cryn gynnydd mewn perthynas â'r dulliau hyn er mwyn cynhyrchu gwybodaeth gywir am boblogaethau sy'n wynebu risg ar ôl 2031.

# Cyngor gan y Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol

Yn ystod rhaglen ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) i'r defnydd o ddata gweinyddol ar gyfer ystadegau am y boblogaeth a mudo, aeth ati i ymgynghori â'r Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol (MARP) [gweler Atodiad A, dolen 20 (Saesneg yn unig)]. Mae'r adran hon yn cynnwys crynodebau o'r prif bwyntiau a'r adborth a gafwyd gan y MARP ar y cynigion yn yr ymgynghoriad a'r argymhelliad a ddeilliodd ohono.

Ffurfiwyd y MARP gan yr Ystadegydd Gwladol i adolygu dulliau a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau swyddogol a rhoi cyngor a sicrwydd yn eu cylch. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r canllawiau yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau [gweler Atodiad A, dolen 21 (Saesneg yn unig)] ar sicrhau ansawdd drwy adolygiadau gan gymheiriaid.

Yn dilyn adolygiad o ddulliau ac ymchwil sy'n gysylltiedig â Chyfrifiad 2021 a dyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo, ym mis Tachwedd 2023 lluniodd y MARP gyngor cychwynnol i'r Ystadegydd Gwladol [gweler Atodiad A, dolen 22 (Saesneg yn unig)].

Ym mis Mawrth 2025, cytunodd y MARP ar y datganiad canlynol i'w gynnwys yn y ddogfen hon, yn seiliedig ar y cyngor a oedd yn dod i'r amlwg i'r Awdurdod gan yr Ystadegydd Gwladol:

> "Mae argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol yn rhagweld dibyniaeth gynyddol ar ddata gweinyddol ar gyfer y system ystadegau am y boblogaeth a mudo yn y dyfodol, ar y cyd â chyfrifiad bob deng mlynedd yn 2031. Er mwyn i'r cyfuniad hwn gyflawni ei botensial, un amod sylfaenol yw cyflenwad diogel a dibynadwy o ddata gweinyddol o ansawdd da i gefnogi gwaith o SYG o gynhyrchu ystadegau swyddogol sy'n addas at ei dibenion ei hun ac at ddibenion eraill. Rydym felly'n cefnogi'r argymhelliad y dylai'r llywodraethau perthnasol (Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, yn ogystal â phob rhan berthnasol o'r wladwriaeth) ymrwymo i gyflawni a datblygu hyn yn gryf.
>
> "Mae'r cynigion methodolegol y mae'r MARP wedi'u hadolygu hyd yma yn dilyn ymarfer methodolegol cadarn, ac yn dangos addewid a chynnydd yng nghyd-destun y weledigaeth arfaethedig. Mae manylion llawn y gwaith a adolygwyd ar gael ar wefan MARP. Fel rydym wedi'i gynghori, mae materion methodolegol i'w datrys o hyd er mwyn cyflawni'r weledigaeth ac, yn wir, mae'r profiad a geir wrth i'r broses fynd rhagddi yn debygol o arwain at gwestiynau a fyddai'n elwa ar ystyriaeth fethodolegol. Rydym yn hyderus bod y SYG yn deall yr hyn sydd ei angen ac y bydd yn ystyried hyn fel rhan o'r dasg o ddatblygu'r dull gweithredu newydd yn ymarferol. Ond mae llawer i'w wneud o hyd.
>
> "Un enghraifft y bydd angen rhoi sylw penodol iddi yw'r dull o fesur nodweddion, gan y bydd gwahaniaethau o ran y diffiniadau, y manylion categoriaidd a lefel y manylder sydd ar gael yn y ffynonellau data gweinyddol amrywiol, a'r darparwyr data unigol fydd yn rheoli'r rhain.

“Bydd mecanweithiau casglu data yn newid dros amser, ac felly mae’n bosibl y bydd effaith ar gysondeb amserol. Ni fydd rhai nodweddion yn ymddangos rhyw lawer mewn data gweinyddol, os o gwbl. Ar gyfer nodweddion, ac yn fwy cyffredinol, bydd angen asesu ansawdd y ffynonellau data gweinyddol er mwyn sicrhau bod y data yn addas at y diben. Yn ogystal, bydd angen sicrhau y bydd yr ansawdd hwn yn parhau i’r dyfodol. Bydd angen addasiadau priodol o ran cwmpas hefyd.

“Yn gyffredinol, bydd Cyfrifiad 2031 yn cynnig cam gwirio pwysig iawn ar gyfer yr allbynnau yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn y cyfamser, a bydd yn ei gwneud yn bosibl i asesu cynnydd o ran cyflawni’r data gweinyddol angenrheidiol. Bydd angen i’r asesiad hwn ystyried materion megis cysondeb amserol ac argaeledd parhaus data gweinyddol, yn ogystal â ph’un a yw ffynonellau data newydd sy’n dechrau llifo wedi cael eu cyflwyno’n briodol. Serch hynny, byddem yn cynghori’r SYG i baratoi opsiynau wrth gefn yn erbyn risg na fydd cyflenwad, ansawdd neu hygyrchedd data gweinyddol yn ddigonol er mwyn cynnal safonau’r SYG, gan gynnwys lefel ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol. Yn ogystal, dylai fod gwaith parhaus ar gostau a manteision y dull gweithredu ar ei newydd wedd.”

ARGYMHELLIAD 1:

# Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2031

Mae ystadegau o ansawdd uchel am y boblogaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, yn eu cymunedau ac yn genedlaethol. Mae adborth a gafwyd wrth ymgysylltu â defnyddwyr yn dangos angen clir i barhau i ddarparu ystadegau manwl iawn y gellir eu cyflawni drwy gyfrifiad yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan. Byddai hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwaith parhaus y SYG gyda data gweinyddol wrth iddynt barhau i aeddfedu.

Dylai Llywodraeth y DU felly gomisiynu a rhoi adnoddau i'r SYG ddechrau paratoadau ar gyfer cyfrifiad yn seiliedig ar holiadur yn 2031. Dylai'r cyfrifiad hwn gael ei gynllunio ar gyfer cymdeithas yn 2031, gan adeiladu ar yr arbenigedd a ddatblygwyd gan y SYG yn 2021, a sicrhau effeithlonrwydd drwy integreiddio data gweinyddol ym mhroses casglu data cyfrifiad traddodiadol sy'n seiliedig ar holiadur ymhellach. Dylai'r SYG sicrhau bod y data sy'n deillio o'r cyfrifiad yn cefnogi datblygiad parhaus yr allbynnau yn seiliedig ar ddata gweinyddol a ddisgrifir yn Argymhelliad 2.

Prif ddiben gweithrediad cyfrifiad traddodiadol yn hanesyddol fu darparu'r mesur stoc ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth. Caiff amcangyfrifon o'r boblogaeth eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i lywio prosesau gwneud penderfyniadau, fel pwysoliadau arolygon, ac fel enwaduron. Mae nodau ychwanegol cyfrifiad sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn cynnwys casglu data manwl ar nodweddion a rhinweddau, a'r gallu i ddarparu set ddata ymchwil werthfawr i'w defnyddio gan ymchwilwyr achrededig mewn amgylcheddau ymchwil dibynadwy. Dylai pob un o'r rhain fod yn allbynnau a flaenoriaethir o'r cyfrifiad arfaethedig yn 2031.

Fel rhan o'r gwaith allgymorth ac ymgysylltu ar gyfer y cyfrifiad hwn, bydd pwyslais cryf ar grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol mewn ffynonellau data gweinyddol ac arolwg yn draddodiadol. Bydd y data a'r allbynnau sy'n deillio o'r cyfrifiad yn galluogi'r SYG a'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus i ehangu eu dealltwriaeth o ansawdd data gweinyddol, a chefnogi strategaethau i wella cynwysoldeb a chynrychioldeb data gweinyddol. Bydd hyn yn gwella ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn y dyfodol (fel y disgrifir yn Argymhelliad 2) ac yn hwyluso dadansoddiad croestoriadol o grwpiau lleiafrifol, a gwybodaeth amdanynt, ar lefelau daearyddol isel yn fwy rheolaidd.

Bydd gwaith ymchwil a phrofi pellach, ynghyd â dysgu gan gydweithwyr rhyngwladol a sefydliadau ystadegau cenedlaethol eraill, yn hanfodol er mwyn pennu'r cynllun a chydbwyso ystyriaethau o ran ansawdd, cost a risg.





Dylid datblygu'r dull gweithredu ochr yn ochr â chynhyrchwyr ystadegol yn rhannau eraill o'r DU er mwyn cefnogi cyflawniad a chydlyniant, yn dibynnu ar benderfyniadau gweinidogion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dylid datblygu'r dull gweithredu yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr hefyd, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad ar bynciau cyn gynted â phosibl.

O ran cynllun, dull cyflawni ac allbynnau cyfrifiad yn 2031, bydd y SYG yn ceisio rhoi elfennau arloesol ar waith, gan ddefnyddio datblygiadau diweddar ym maes technoleg fodern, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial. Bydd y SYG yn:

- dylunio cyfrifiad digidol yn gyntaf â holiaduron ar-lein yn bennaf ar gyfer pob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr yn 2031
- defnyddio data gweinyddol i gefnogi'r gwaith o gasglu data'r cyfrifiad a'u hansawdd
- defnyddio data gweinyddol i gwmpasu pynciau ychwanegol sydd o gryn ddiddordeb i ddefnyddwyr (e.e. incwm), ac ysgogi gwelliannau o ran amseroldeb
- sicrhau cydlyniant ledled y DU, gan gynnwys (yn amodol ar benderfyniadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon) pob gwlad sy'n elwa ar gyhoeddusrwydd ledled y DU a llwyfan casglu data a rennir, gan gydbwyso anghenion defnyddwyr ym mhob gwlad â chydlyniant y DU

Bydd y SYG, fel rhan o'i chynlluniau ar gyfer cynnal cyfrifiad digidol yn gyntaf yn seiliedig ar holiadur, yn ystyried anghenion pobl a all wynebu rhwystrau wrth ymateb yn ddigidol, gan ddefnyddio dull gweithredu cynhwysol sy'n galluogi pob rhan o gymdeithas i ymateb.

Gall cyfrifiad 2031 helpu i greu system ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n gynyddol seiliedig ar ddata gweinyddol yn y dyfodol, yn seiliedig ar y dull meincnodi a ddarperir drwy gasglu data mewn cyfrifiad.

Drwy weithrediad y cyfrifiad, bydd y SYG yn gweithio gyda'r dinesydd i sicrhau newid sylweddol yn nerbynioldeb a dealltwriaeth y cyhoedd mewn perthynas â rhannu data gweinyddol, gan rymuso dinasyddion i fod yn fwy ymwybodol o ddata, fel y disgrifir yn Argymhelliad 2.

**Mae'r Awdurdod yn argymell: bod Llywodraeth y DU yn comisiynu ac yn rhoi adnoddau i'r SYG gynnal cyfrifiad gorfodol yn seiliedig ar holiadur o'r boblogaeth gyfan a thai yng Nghymru a Lloegr yn 2031. Dylai'r cyfrifiad hwn gefnogi allbynnau cydlynol yn y DU a sicrhau bod gwaith y SYG gyda data gweinyddol hyd yn hyn yn darparu cynifer o fuddion â phosibl, fel y gellir parhau i ddarparu buddion o'r fath yn y dyfodol.**

## ARGYMHELLIAD 2:

# Parhau i ddarparu adnoddau ar gyfer ystadegau am y boblogaeth a mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol

Drwy ei hymgynghoriad yn 2023, nododd y SYG angen parhaus cryf ymhlith defnyddwyr am ddata am y boblogaeth ar lefel unigolion. Yn ei gwaith ymchwil, mae'r SYG wedi dangos dichonoldeb cynhyrchu set ddata ddad-adnabyddedig ar lefel unigolion, gan gynnwys oedran a rhyw, o ffynonellau gweinyddol, y gellir eu dadansoddi yn ôl ardaloedd daearyddol isel iawn. Darparodd y SYG y set ddata hon yn ddiogel i ymchwilwyr achrededig drwy'r Gwasanaeth Data Integredig ym mis Rhagfyr 2024 [gweler Atodiad A, dolen 23 (Saesneg yn unig)]. Byddai gweithredu'r set ddata hon a'i datblygu'n barhaus yn gyfrifiad cadarn a pharhaus yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn arwain y ffordd ar gyfer system ystadegol fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

Dylai'r SYG geisio cynhyrchu'r cyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol bob blwyddyn, gan gynyddu nifer y pynciau sydd ar gael bob blwyddyn. Gan ganolbwyntio ar y cyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol, a defnyddio data o arolygon lle y bo'n briodol, dylai'r SYG ymrwymo i ddarparu'r allbynnau a ddisgrifir yn yr adran Monitro ac adrodd ar gynnydd.

Bydd y cyfrifiad yn 2031 yn defnyddio'r gwaith hwn gyda'r nod o gynyddu effeithlonrwydd a manwl gywirdeb. Yn ogystal, bydd y data o'r cyfrifiad yn 2031 yn darparu pwynt cymharu o ansawdd uchel er mwyn deall ansawdd set ddata ystadegol y SYG o'r boblogaeth a'r cyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

Fel sefydliad ystadegol cenedlaethol annibynnol y DU, mae'n rhaid i'r SYG weithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr ledled y DU wrth ddatblygu'r gwaith hwn, a datblygu dulliau cyffredin i sicrhau y cynhelir cydlyniaeth y DU i'r dyfodol.

Bydd angen buddsoddiad a chyllid parhaus i greu system ystadegau am y boblogaeth a mudo sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol. Mae'n rhaid i'r SYG a'i phartneriaid yn Llywodraeth y DU ac ar draws system ystadegol y DU gael yr adnoddau priodol i wneud hynny.

Yn ogystal â rhoi cyfrifiad sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol ar lefel cofnodion ar waith, dylai'r SYG ymrwymo i gynhyrchu allbynnau eraill am y boblogaeth gan ddefnyddio data gweinyddol.

Mae'r SYG eisoes wedi symud i amcangyfrifon o fudo rhyngwladol yn seiliedig ar ddata gweinyddol fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu, gan gyhoeddi'r ffigurau diweddaraf ym mis Mai 2025, a bydd yn anelu at ddynodi'r rhain yn ystadegau swyddogol achrededig. Drwy'r cyfrifiad yn 2021, mae wedi dangos bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar ddata gweinyddol wedi gwella'r

dull o fesur ystadegau mudo o gymharu â mesurau hanesyddol sy'n seiliedig ar arolygon. Mae'r SYG hefyd yn datblygu ei dull o gynhyrchu amcangyfrifon mudo mewnol, gan ddefnyddio ffynonellau data mwy gweinyddol.

Mae'r SYG yn gweithio i bennu pa ffynonellau data gweinyddol fydd yn arwain at amcangyfrifon manwl a chroestoriadol o nodweddion allweddol (megis nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ethnigrwydd ac anabledd; incwm; y Gymraeg; ystadegau tai) sy'n fwy rheolaidd a chyfredol. Yn hanesyddol, dim ond drwy ddulliau casglu data pwrpasol ar raddfa fawr y bu hyn yn bosibl, ond byddai gwella ystad data gweinyddol y sector cyhoeddus, a ddisgrifir yn Argymhelliad 3 yn cefnogi ymdrechion i gyflawni'r uchelgais hwn. Dylai'r SYG geisio cynhyrchu amcangyfrifon o ansawdd uchel, a gaiff eu cynhyrchu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau [gweler Atodiad A, dolen 21 (Saesneg yn unig)], a dylai geisio sicrhau bod y rhain yn cael eu dynodi'n ystadegau swyddogol achrededig.

Dylai'r asedau data sy'n sail i'r amcangyfrifon hyn, gan gynnwys y cyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol, fod ar gael i ymchwilwyr drwy amgylcheddau ymchwil dibynadwy'r SYG, fel y gellir gwireddu buddion ychwanegol er budd y cyhoedd.

Gan ddefnyddio ymchwil y SYG i agweddau'r cyhoedd a phwysigrwydd tryloywder ac ymddiriedaeth (gweler yr adran Cefndir), dylai'r SYG ddechrau prosiect i archwilio data dinasyddion fel dull o wella dibynadwyedd ystadegau am y boblogaeth a mudo. Dull gweithredu yw data dinasyddion, fel y'i diffinnir gan Fframwaith Copenhagen ar Ddata Dinasyddion [gweler Atodiad A, dolen 24 (Saesneg yn unig)], lle mae dinasyddion neu Sefydliadau Cymdeithas Sifil yn cymryd rhan ystyrlon mewn prosesau casglu a dylunio data.

**Mae'r Awdurdod yn argymell: bod Llywodraeth y DU yn comisiynu ac yn rhoi adnoddau i'r SYG ddatblygu allbynnau ystadegol gan ddefnyddio data gweinyddol sy'n darparu amcangyfrifon mwy rheolaidd ac sy'n gynhwysol wrth gynrychioli cymdeithas. Dylai hyn gynnwys cyfrifiad o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol.**

ARGYMHELLIAD 3:

# Ymrwymo i lif data gweinyddol hanfodol

Mae ystadegau swyddogol o ansawdd uchel yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae angen i'r seilwaith sy'n eu darparu fod yn ddigon cadarn a dibynadwy fel y gellir eu cyhoeddi i'r safon uchel y mae defnyddwyr yn ei disgwyl ar yr adeg y mae defnyddwyr yn eu disgwyl.

Er mwyn cael system lwyddiannus sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, mae angen cyflenwad rheolaidd, amserol a sefydlog o ddata gweinyddol hanfodol gan bartneriaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys sicrwydd o ran fformat a'r metadata ategol. Yn ogystal, mae'r SYG angen i gyflenwyr ei hysbysu a chydweithio â hi mewn perthynas ag unrhyw newidiadau gweithredol cynlluniedig a fydd yn effeithio ar ansawdd neu gynnwys setiau data gweinyddol hanfodol, gan roi rhybudd digonol, er mwyn asesu a lleihau effaith newidiadau o'r fath ar y gwaith o gynhyrchu ystadegau.

Nododd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 lwybrau cyfreithiol clir er mwyn caffael data gweinyddol ar gyfer ystadegau. Ers hynny, mae gwaith y SYG gyda pherchnogion data wedi gwneud cynnydd da o ran cael gafael ar ddata gweinyddol, sydd wedi galluogi'r ymchwil sy'n sail i'r argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, mae profiad yn dangos nad yw hyn yn gwarantu cyflenwad rhagweladwy o ddata y gellir adeiladu system ddibynadwy o ystadegau am y boblogaeth a mudo arno. Ceir achosion o darfu ar gyflenwadau y cytunwyd arnynt yn rhy aml, a hynny ar fyr rybudd weithiau, a phan fydd data yn cyrraedd, ni chânt eu cyflwyno ar ffurf y gellir ei defnyddio bob amser. Ni all y SYG liniaru'r risg hon ar ei phen ei hun, a bydd ymdrechion y SYG i gynhyrchu ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol yn yr hirdymor yn fwy llwyddiannus gyda chymorth o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Galwodd Adolygiad Annibynnol yr Athro Lievesley o Awdurdod Ystadegau'r DU [gweler Atodiad A, dolen 7 (Saesneg yn unig)] am system effeithiol ar gyfer rhannu data'n gyfrifol er mwyn gwireddu potensial y data a ddelir gan y llywodraeth yn llawn, barn a ategwyd gan adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol [gweler Atodiad A, dolen 25 (Saesneg yn unig)], "Transforming the UK's Evidence Base".

Yng nghyd-destun y DU, mae'n bwysig nad yw cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ystadegau gwell o'r boblogaeth wedi'u cyfyngu i'r SYG yn unig. Mae angen cymorth ar y rhai sy'n cynhyrchu ystadegau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i gaffael y data sydd eu hangen i ymchwilio i amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, gyda gofyniad posibl am gyflenwad rheolaidd yn y dyfodol er mwyn cefnogi prosesau cynhyrchu ystadegol parhaus.

Bydd buddsoddi yn ystad data gweinyddol y sector cyhoeddus a'i gwella yn arwain at fanteision eang i'r system gyfan, gan gynnwys gwella'r data a ddefnyddir at ddibenion gweithredol i ddarparu gwasanaethau'r llywodraeth. Byddai hyn yn sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar y SYG yn bresennol yn y ffynonellau hyn i'r lefel gywir o ran ansawdd ac, yn ei dro, mae hyn yn debygol o greu cylch rhinweddol, drwy wella ansawdd y data at ddefnydd gweithredol adrannau eu hunain.

Byddai'r Awdurdod hefyd yn croesawu cymorth y Llywodraeth i roi argymhelliad blaenorol gan y Comisiynydd Plant ar waith [gweler Atodiad A, dolen 26 (Saesneg yn unig)], sef: bod y SYG yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i bennu'r arferion gorau ar gyfer dylunio systemau gweinyddol (ar draws y llywodraeth) er mwyn hwyluso'r gwaith o ddwyn cofnodion teuluol ynghyd.

Mae'r Awdurdod yn annog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r SYG wrth drafod â chyrff sy'n gyfrifol am gasglu data gweinyddol. Dylai nodi ffyrdd o wella'r manylder a gynigir gan ffynonellau gweinyddol fod yn amcan a rennir gan bob parti. Mae'r SYG yn arbenigo mewn dylunio a chysoni prosesau casglu data, a gellid cymhwyso'r arbenigedd hwn er mwyn gwella systemau gweinyddol. Byddai hyn yn sicrhau bod newidynnau yn cael eu mesur yn gyson. Er y byddai'r SYG yn ceisio gwneud gwelliannau er mwyn cyd-fynd â dibenion ystadegol yn well, yn gyfnewid byddai adrannau yn cael budd o ansawdd, cysondeb a gwerth gwell o ran y data a gesglir.

**Mae'r Awdurdod yn argymell: bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod llif rheolaidd, dibynadwy a pharhaus o'r setiau data gweinyddol hanfodol sydd eu hangen, gan sicrhau bod perchnogion data yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, ac yn buddsoddi yn y gwelliannau gofynnol i'r ffynonellau hynny ac yn mynd i'r afael â'r elfennau hysbys sy'n gwrthdaro ac yn atal data rhag cael eu trosglwyddo.**

## Monitro ac adrodd ar gynnydd

Mae'r allbynnau a ddisgwylir o uchelgais hirdymor yr Awdurdod i roi data gweinyddol wrth wraidd ystadegau am y boblogaeth a mudo fel a ganlyn:

1. Ystadegau am y boblogaeth a mudo ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys amcangyfrifon cydlynol ar gyfer y DU.
2. Ystadegau am nodweddion, tai a threfniadau byw, gan wella ein dealltwriaeth o gymdeithas a chymunedau ar lefel genedlaethol a lefel leol, gan gynnwys ystadegau amlamryweb.
3. Amcanestyniadau o'r boblogaeth a chartrefi gan gynnwys amcanestyniadau amrywiadol mewn ymateb i anghenion defnyddwyr.
4. Dealltwriaeth arbenigol o newid demograffig strwythurol a'r heriau demograffig cysylltiedig sy'n wynebu ein cymdeithas (gan gynnwys heneiddio, ffrwythlondeb a marwoldeb), gan ymgorffori dealltwriaeth o ddemograffeg ym mhob rhan o'r llywodraeth.
5. Asedau data trawstoriadol a hydredol sy'n caniatáu ar gyfer ymchwil a dadansoddi.
6. Dangosyddion a gwybodaeth ychwanegol sy'n darparu dealltwriaeth newydd neu gynnar o'r boblogaeth, a gaiff eu hadeiladu o ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd.

Bydd yr Awdurdod yn monitro ac yn adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd y SYG o ran cyflawni'r argymhellion hyn fesul cyfnod yn y dyfodol. Dylai'r adroddiad cyntaf gael ei lunio yn 2026.

Er mwyn cefnogi'r gwaith adrodd hwn, mae'r Awdurdod yn cynnig sefydlu is-bwyllgor â phwyslais penodol ar gyfer y Bwrdd, gyda chylch gwaith i gynghori'r Bwrdd yn rheolaidd ar gynnydd o ran y system ystadegau poblogaeth gyfan. Byddai'n cynnwys uwch-arweinwyr o bob rhan o'r llywodraeth a thu hwnt, ar y cyd ag arbenigwyr perthnasol a chyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod.

ATODIAD A

# Dolenni perthnasol

**1. Data gweinyddol a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr (Saesneg yn unig)**

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/methodologies/administrativedatausedincensus2021englandandwales

**2. Y Tu Hwnt i 2021 (Saesneg yn unig)**

www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/beyond2011censustransformationprogramme

**3. Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr: canol-2023 (Saesneg yn unig)**

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationestimatesforenglandandwales/mid2023

**4. Amcangyfrifon mudo rhyngwladol hirdymor yn seiliedig ar ddata gweinyddol ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben ym Mehefin 2024 (Saesneg yn unig)**

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/bulletins/longterminternationalmigrationprovisional/yearendingdecember2024

**5. Strategaeth Ddata'r SYG (Saesneg yn unig)**

www.ons.gov.uk/aboutus/transparencyandgovernance/datastrategy/ourdatastrategy

**6. Glasbrint ar gyfer llywodraeth ddigidol fodern (HTML) (Saesneg yn unig)**

www.gov.uk/government/publications/a-blueprint-for-modern-digitalgovernment/a-blueprint-for-modern-digital-government-html

**7. Adolygiad Annibynnol o Awdurdod Ystadegau'r DU gan yr Athro Denise Lievesley CBE (HTML) (Saesneg yn unig)**

www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-the-uk-statisticsauthority-uksa-2023/independent-review-of-the-uk-statistics-authority-byprofessor-denise-lievesley-cbe-html

**8. Adroddiad blynyddol ar weithrediad y Datganiad o gytundeb ar gyfer cydweithio ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a chymdeithas yn y DU: 2024 (Saesneg yn unig)**

uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/annual-report-on-the-functioning-ofthe-statement-of-agreement-for-cooperation-on-future-uk-population-and-socialstatistics-2024/

9. **Papur Gwyn 2018 'Helpu i Lunio ein Dyfodol'**
www.gov.uk/government/publications/the-2021-census-of-population-and-housing-in-england-and-wales.cy

10. **Dyfodol cyfrifiadau am y boblogaeth a thai: rhagolygon ar gyfer rownd cyfrifiad 2030 a thu hwnt (PDF) (Saesneg yn unig)**
unece.org/sites/default/files/2022-09/WP5_UNFPA_CangianoJongstra_ENG.pdf

11. **Trawsnewid ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr, trosolwg o'r ymchwil: 2023 (Saesneg yn unig)**
www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/ populationandmigration/internationalmigration/articles/ populationandmigrationstatistics transformationinengland andwalesresearchoverview/2023

12. **Pwyllgor Cynghorol Moeseg Data'r Ystadegydd Gwladol (NSDEC) (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/the-authority-board/committees/national-statisticians-advisory-committees-and-panels/national-statisticians-data-ethics-advisory-committee/

13. **Yr hyn rydym yn ei wybod o ganlyniad i ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â data: Ionawr 2025 (Saesneg yn unig)**
www.ons.gov.uk/aboutus/usingpublicdatatoproducestatistics/peoples attitudestodata/whatweknowfromengagingwiththepublicondatajune2023

14. **Ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr**
consultations.ons.gov.uk/syg/ystadegauyboblogaethamudo/

15. **Adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad**
www.ons.gov.uk/file?uri=/aboutus/whatwedo/programmesandprojects/censusanddatacollectiontransformationprogramme/futureofpopulationandsocial statistics/getinvolved/2252nationalstatisticianrecommendationconsultationo utcomesreportwelshweba.pdf

16. **Dyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr (PDF)**
consultations.ons.gov.uk/syg/ystadegauyboblogaethamudo/supporting_documents/Dogfen%20Ymgynghori%20Dyfodol%20Ystadegau%20 Poblogaeth%20a%20Mudo.pdf

17. **Adroddiad annibynnol ar Gynulliad Ystadegau'r DU ar gyfer 2025 (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/independent-report-on-the-2025-ukstatistics-assembly/

**18. Pwyllgor Cynghorol ar Ddata Cynhwysol yr Ystadegydd Gwladol (NSIDAC) (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/the-authority-board/committees/national-statisticians-advisory-committees-and-panels/national-statisticians-inclusive-data-advisory-committee/

**19. Llythyr gan yr NSIDAC i'r Ystadegydd Gwladol (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/nsidac-advice-on-future-of-population-and-migration-statistics/

**20. Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/the-authority-board/committees/national-statisticians-advisory-committees-and-panels/methodological-assurance-review-panel/

**21. Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Saesneg yn unig)**
code.statisticsauthority.gov.uk

**22. Cyngor cychwynnol ar gyfer yr Ystadegydd Gwladol gan y Panel Adolygu Sicrwydd Methodolegol (Saesneg yn unig)**
uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/marp-advice-on-future-of-population-and-migration-statistics/

**23. Cyfrifiad yn Seiliedig ar Ddata Gweinyddol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru a Lloegr (Saesneg yn unig)**
app.integrateddataservice.gov.uk/data-catalogue/admin_based_census_experimental_england_wales

**24. Fframwaith Copenhagen ar Ddata Dinasyddion (Saesneg yn unig)**
unstats.un.org/UNSDWebsite/statcom/session_55/documents/BG-4c-CGD_Framework-E.pdf

**25. Trawsnewid Sylfaen Dystiolaeth y DU (Saesneg yn unig)**
committees.parliament.uk/publications/44964/documents/223187/default/

**26. Dull cadarnhaol o rianta: Rhan 2 o'r adolygiad annibynnol o deuluoedd (Saesneg yn unig)**
assets.childrenscommissioner.gov.uk/wpuploads/2022/12/cc-a-positive-approach-to-parenting-part-2-of-the-independent-family-review.pdf